Y Comisiwn Etholiadol

Sefyllfaoedd a gweithdrefnau

# Etholiadau Mai 2012: Ymgyrchwyr di-blaid

Mae'r ddogfen hon yn benodol ar gyfer etholiadau yn Mai 2012. Mae'n nodi'r cyfyngiadau gwariant a'r terfynau adrodd yn ôl i ymgyrchwyr di-blaid.

Cynnwys:


Etholiadau sy'n digwydd yn 2012

Y cyfnod a reoleiddir

Cyfyngiadau gwariant

Terfynau adrodd yn ôl

## Termau ac ymadroddion a ddefnyddir gennym

Rydym yn defnyddio '**rhaid**' pan fyddwn yn cyfeirio at ofyn cyfreithiol neu reoleiddiol penodol. Rydym yn defnyddio '**dylech**' ar gyfer eitemau yr ydym yn ystyried eu bod yn arfer da, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol.

Nid oes raid i chi ddilyn y cyfarwyddyd hwn, ond os gwnewch hynny, byddwch, fel arfer, yn gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith.

## Ein hymagwedd at orfodi

Os na fyddwch yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol neu reoleiddiol fe allwch chi a'ch sefydliad fod yn ddarostyngedig i gosbau sifil neu droseddol. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am ymagwedd y Comisiwn at orfodi yn www.electoralcommission.org.uk/party-finance/enforcement.

# Etholiadau yn Mai 2012: Ymgyrchwyr di-blaid

## Ar gyfer pwy mae'r ddogfen hon:

Ymgyrchwyr di-blaid sydd am wybod manylion penodol am etholiadau sy'n digwydd yn Mai 2012.

## Mae'r ddogfen yn trafod:

- Etholiadau sy'n digwydd yn Mai 2012
- Y cyfnod a reoleiddir
- Cyfyngiadau gwariant

## Dogfennau cysylltiedig:

- Cyflwyniad i ymgyrchwyr di-blaid
- Golwg gyffredinol ar ymgyrchoedd di-blaid
- Golwg gyffredinol ar ddeunydd ymgyrchu di-blaid
- Sefyllfa a gweithdrefnau: Rheoli gwariant ymgyrch ddi-blaid
- Sefyllfaoedd a gweithdrefnau: Digwyddiadau hysting

2

# Crynodeb

Rhaid i ymgyrchwyr di-blaid ddilyn rheolau penodol yn y cyfnod cyn etholiad.

Gall y rheolau perthnasol amrywio o flwyddyn i flwyddyn.

Mae'r ddogfen hon yn esbonio pa reolau sy'n berthnasol ar gyfer etholiadau ym Mai 2012 a'r cyfyngiadau gwariant perthnasol.

# Cyflwyniad

Unigolion neu sefydliadau sy'n ymgyrchu mewn etholiadau yw ymgyrchwyr di-blaid, ond nad ydynt yn sefyll fel pleidiau gwleidyddol neu ymgeiswyr. Yn ôl cyfraith etholiadol, rydym hefyd yn galw'r unigolion neu sefydliadau hyn yn 'drydydd parti'.

Efallai y byddwch am ymgyrchu dros faterion penodol, neu dros neu yn erbyn pleidiau neu ymgeiswyr penodol.

## Y ddau fath o ymgyrch ddi-blaid

Mae dau fath o ymgyrch ddi-blaid:

- Ymgyrchoedd cyffredinol – pan fyddwch yn ymgyrchu dros bleidiau gwleidyddol, polisïau, materion gwleidyddol neu fathau o ymgeiswyr neu yn eu herbyn.
- Ymgyrchoedd lleol – pan fyddwch yn ymgyrchu dros ymgeisydd unigol mewn etholaeth neu ward neu yn ei erbyn.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y gwahanol fathau o ymgyrchoedd yn ein Golwg gyffredinol ar ymgyrchoedd di-blaid.

## Ein cyfarwyddyd ar gyfer blwyddyn benodol

Mae'r cyfyngiadau gwariant yn amrywio rhwng etholiadau. Bob blwyddyn rydym yn cyhoeddi cyfarwyddyd penodol ar gyfer ymgyrchwyr di-blaid ar etholiadau sy'n digwydd y flwyddyn honno.

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r cyfnodau penodol a reoleiddir a chyfyngiadau gwariant ar gyfer etholiadau sy'n digwydd ym Mai 2012.

Bydd arnoch angen darllen y cyfarwyddyd hwn ochr yn ochr â dogfennau cyfarwyddyd eraill ar gyfer ymgyrchwyr di-blaid. Mae'r cyfarwyddyd hwnnw yn esbonio'r mathau o ymgyrchu sydd dan sylw.

Am ragor o wybodaeth gweler:

- Cyflwyniad i ymgyrchwyr di-blaid
- Golwg gyffredinol ar ymgyrchoedd di-blaid

# 4

# Ymgyrchoedd cyffredinol yn etholiadau Mai 2012

## Pa etholiadau sy'n cael eu rheoleiddio?

Eleni, nid oes unrhyw gyfyngiadau ar wariant ymgyrchoedd cyffredinol yn yr etholiadau i:

- awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban
- Awdurdod Llundain Fwyaf

Mae gwariant ar ymgyrchu dros neu yn erbyn plaid sy'n cyflwyno rhestr yn etholiad Awdurdod Llundain Fwyaf yn cyfrif fel ymgyrchu lleol. Gallwch ddarllen mwy am hyn yn yr adran nesaf.

Efallai y bydd y rheolau ar gyfer etholiadau i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yng Nghymru a Lloegr ar 15 Tachwedd 2012 yn cynnwys cyfyngiadau ar wariant ymgyrchu cyffredinol. Byddwn yn cyhoeddi dogfen ar wahân ar gyfer yr etholiadau hyn pan fydd y rheolau wedi eu cwblhau.

Am ragor o wybodaeth ar yr hyn yr ydym yn ei olygu wrth ddweud 'ymgyrchoedd cyffredinol' ac 'etholiadau lleol', gweler y ddogfen hon:

- Golwg gyffredinol ar ymgyrchoedd di-blaid

# Ymgyrchoedd lleol mewn etholiadau ym Mai 2012

## Pa etholiadau sy'n cael eu rheoleiddio?

Eleni, mae cyfyngiadau ar wariant lleol ar ymgyrchu dros neu yn erbyn ymgyrchwyr mewn etholiadau i:

- awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon
- Awdurdod Llundain Fwyaf – yn cynnwys gwariant ar ymgyrchu dros neu yn erbyn plaid sy'n cyflwyno rhestr

Efallai y bydd y rheolau ar gyfer etholiadau i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yng Nghymru a Lloegr ar 15 Tachwedd 2012 yn cynnwys cyfyngiadau ar wariant ymgyrchu lleol. Byddwn yn cyhoeddi dogfen ar wahân ar gyfer yr etholiadau hyn pan fydd y rheolau wedi eu cwblhau.

Am ragor o wybodaeth ar yr hyn yr ydym yn ei olygu wrth ddweud 'ymgyrchoedd cyffredinol' ac 'ymgyrchoedd lleol', gweler y ddogfen hon:

- Golwg gyffredinol ar ymgyrchoedd di-blaid

## Y cyfnod a reoleiddir

Y 'cyfnod a reoleiddir' yw'r amser pan fydd y cyfyngiadau a rheolau gwario yn berthnasol.

Mae'r cyfnod a reoleiddir yn berthnasol o'r dyddiad y daeth yr unigolyn yr ydych yn ymgyrchu drosto neu yn ei erbyn yn ymgeisydd.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am pryd y bydd pobl yn dod yn ymgeiswyr ar ein tudalen gyfarwyddyd i ymgeiswyr ac asiantau.

# 6

## Cyfyngiadau gwariant

| | |
|---|---|
| **Etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban** | £50 a 0.5c am bob etholwr ar y gofrestr etholwyr ar gyfer y ward |
| **Awdurdod Llundain Fwyaf:** | |
| Maer Llundain | £50 a 0.5c ar gyfer pob etholwr ar y gofrestr etholwyr yn ardal Awdurdod Llundain Fwyaf |
| Rhestr plaid ledled Llundain neu ymgeisydd unigol | £50 a 0.5c ar gyfer pob etholwr ar y gofrestr etholwyr yn ardal Awdurdod Llundain Fwyaf |
| Ymgeiswyr etholaeth | £50 a 0.5c am bob etholwr ar y gofrestr etholwyr ar gyfer yr etholaeth berthnasol |

# Sut gallwn ni helpu

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth yn y dogfennau cyfarwyddyd yr ydym wedi eu hawgrymu yn y ddogfen hon, neu gallwch weld ein dewis llawn o gyfarwyddyd ac adnoddau cyfredol ar ein gwefan.

Os yw hynny'n haws, gallwch hefyd gysylltu â ni ar un o'r rhifau ffôn neu gyfeiriadau e-bost isod. Rydym yma i'ch helpu, felly cysylltwch â ni.

Ffoniwch ni ar:

- Lloegr: 020 7271 0616
  pef@electoralcommission.org.uk
- Yr Alban: 0131 225 0200
  infoscotland@electoralcommission.org.uk
- Cymru: 029 2034 6800
  gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
- Gogledd Iwerddon: 028 9089 4020
  infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

Ewch i'n gwefan yn www.comisiwnetholiadol.org.uk

Rydym yn croesawu adborth ar ein cyfarwyddyd – anfonwch e-bost atom yn: pef@electoralcommission.org.uk

8

## Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth ynghylch cael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu ar ffurf fersiwn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: publications@electoralcommission.org.uk